LG JS 5.198

# COFFADWRIAETH

AM

Y PARCH. *ZACHARIAS THOMAS.*

Yr hwn a orphenodd ei yrfa yn y *Llwyn*,

yn Sir Gaerfyrddin:

y 16. o Ionawr, 1816, yn 89 o'i oed.

Gan THOMAS THOMAS,

*Peckham, Surry.*

*Ail argraphwyd* 1819.

1 O ANGAU! hên elyn, gorchfygaist,
Do'n ddiau, ennillaist y dydd:
Nid oes, er cael ystyn ei ddyddiau,
All ddô'd o'th grafangau yn rhydd:
Na'r uchel, na'r heinyf, na'r ieuangc,
Na'r ffôl chwaith, all ddiangc o'th law;
Na'r doeth *Weinidogion* dra hynod,
Eu diwedd rhyw dd'wrnod a ddaw.

2 Ehedodd trwy *Gymru* y newydd,
I *Loegr* yn ebrwydd y daeth,
Fod THOMAS o'r *Llwyn* wedi gorphen,
(Fel haul y ffurfafen,) ei daith;
Dysgwyliais, trwy ystod naturiaeth,
Na fyddai 'i filwriaeth e'n hir,
Ond pan daeth yr atteg, er hynny,
Mor anhawdd i gredu e'n wîr!

LH 4927

3 Yn gynnar, dangosodd fawr awen
I wrando, a darllen y gair;
A hyn oedd ei fryd, a'i holl awydd,
Pan nâ'd oedd dros ddeng mlwydd a thair;
Yn ddyfal, pob pregeth a glywai,
Gosodai y *pennau* i lawr,
'Sgrifenai yr *hymnau*, a'r cwbl,
A hoffai y gorchwyl yn fawr.

4 Ei *Fibl*, pan oedd yn bugeilio,
A ddygai i'w chwilio bob dŷdd;
Derbyniodd, yn hynod, trwy'r arfer,
Wybodaeth, a phleser, a bûdd;
Câ's brofi, trwy'r sgrythyr, yn fachgen,
Sancteiddiol, glân ddiben y gwir,
A 'nabod y gŵr fu dan hoelion,
Yn dyoddé 'r groes greulon, dan gûr.

5 Fe ddysgodd yn fuan wahanu
Rhwng rhai sy 'n gwas'naethu eu Duw,
A'r byd sydd yn caru ffolineb,
Ac mewn annuwioldeb yn byw;
Dilynodd ganlynwyr yr *Jesu*,
Heb oedi, na thynu 'n ei ôl,
Gan ochel drwg nwydau yr ynfyd,
A diwedd dychrynllyd y ffôl.

6 Hîr goffa fydd am *Esgair-Ithri*,
Y lle câ's e'i eni i'r byd;
Teimladwy o'u rhwymau mae llawer
Am ystyn ei amser cyhyd;
Yn eglwys *Llandyssyl* dechreuodd
I osod ar gyhoedd i mâ's,
Y ceidwad, a'i ddwyfol rinweddau,
A helaeth drysorau ei râs.

7 Trwy gymmell, 'mhen 'chydig flynyddau,
Fe aeth i'r *Beudyau* i fyw,
Fel gallei bregethu oddiamgylch,
Ym *Methel*, ac ym *Mwlch-y-rhiw;*
Heblaw *Aberduar*, a'r *Bettws*,
Mewn parch trwy 'r holl eglwys, a'r wlâd,
*Cynghorwr* mewn gair ac athrawiaeth,
Hyd amser marwolaeth fy nhâd.

8 'N ôl hynny, ordeiniwyd e 'n drefnus,
A dau ŵr croesawus, ynghyd,
Fel gallent olygu, 'n fwy cymmwys,
Ganghennau yr eglwys i gyd:
Mewn undeb, brawdgarwch, yn ffyddlon,
Mewn aml *Siwrneion*, a maith,
Yr achos trwy 'u hymdrech a lwyddodd.
A Duw a fendithiodd eu gwaith.

9 Cyhoeddai 'r efengyl yn fwynaidd,
Gwahoddai 'r trwm lwythaidd i gyd,
I ffoi gyd â brys at waredwr,
Ac unig Iachawdwr y byd;
Yn ofer eu llafur a'u lludded,
Colledig yr enaid di ffydd,
A gredo y mwyaf bechadur
Cadwedig yn sicr a fydd.

10 Rhybuddiai y werin annuwiol,
Crefyddwyr rhagrithiol dan gûdd;
Wylofain heb wir edifeirwch,
A phoenau 'r tywyllwch a fydd;
"Par'towch," oedd ei gyngor diwetha,
( A llawer a'i cofia o hyd, )
"Ni wyddoch yr awr y daw marw,
A'r gennad i'ch galw o'r byd."

11 Yn dirion cysurai 'r trallodus,
Annogai 'r ammheûs, a'r gwan,
Dan d'wsiad ei ddoeth gyfrwyddiadau,
Yr ofnus a ddringau i'r lan;
Cynghorai 'r esgeulus, a'r diofal,
Arg'hoeddai 'r anwadal yn hŷ,
A channoedd sydd heddyw yn dystion,
Mor ddiwyd a ffyddlon y bû.

12 Amddifad o fantais dysgeidiaeth,
Meddiannodd wybodaeth yn fawr;
Mewn pungciau duwinyddiaeth, mor barod,
A medrus i'w gosod i lawr!
Nid llai ei wybodaeth a'i fedr,
I ddatgan gwir hyder y saint,
Eu cariad, eu cynnydd, a'u cysur,
Eu llwyddiant, a natur eu braint.

13 Ar grefydd oer ddeddfol, ergidiai
Yn drwm iawn, rai prydiau, a llym;
Nid oes yn y byd ddyn teilyngol,
Nag oes un haeddianol o ddim.
Nid cynnyg *ammodau* i'r eiddil,
Yw sylwedd efengyl ein Duw,
Ond arfaeth rasusol eglurir
Yn cadw pechadur yn fyw.

14 Gochelai, er hynny, yn brysur,
I roddi achlysur i dd'weud.
Nâ'd oedd rhwymedigaeth ar ddynion
I barchu 'r gorch'mynion, a'u gwneud:
Er nâ'd ein ufudd-dod i'r gyfraith,
Yw sylfaen ein gobaith, a'n plé,
Fel rheol ein bywyd golygwn,
Ac yna canfyddwn ei lle.

15 *Doethineb, cyfiawnder, sancteiddrwydd,*
Trwy ffydd yn yr Arglwydd a geir,
Nid oes ond efe 'n *brynedigaeth*
'N ôl eglur dystiolaeth y gair,
Cyfiawnder, fel anian weithredol,
Sy'n llwyr angenrheidiol i ddŷn,
Ond *Crist* yw ei oglud a'i hyder,
Heb ddim o'i gyfiawnder ei hûn.

16 O gariad at *Jesu*, a'i achos,
Pregethodd yn agos a phell,
*Duwinydd* rhagorol cyfrifwyd,
Nid mynych y gwelwyd ei well;
Er nâ'd i gynhyrfu serchiadau
Derbyniodd e ddoniau mor faith,
Ei ddeall, a'i brofiad rhagorol,
Oedd dra gyfattebol i'r gwaith.

17 Fe 'i gwelwyd yn rhyfedd ymdrechol,
I gadw 'n gylchynol ei le,
Na thywydd, na ffwdan, na phellder,
A'n cadwai un amser yn nhrê,
Yn gystal ar gyrddau wythnosol,
A chyrddau sabbathol; ei fryd
Oedd nodi yn graffus yr oriau,
A myned i'r cyrddau mewn pryd.

18 Yn ddi dderbyn wyneb mynegai
'R gwirionedd, yn ddiau, wrth raid,
Heb ddangos dueddiad i drwsio,
Na gofal i foddio dwy blaid;
Bedyddiai 'r crediniol, trwy *drochi*,
Yn sicr pawb heddy' a ŵyr,
Gan wrthod, fel peth heb awdurdod,
*Danelliad Babanod*, yn llwyr.

19 Ei fywyd fu'n bur ddiargyhoedd,
Yn dda llywodraethodd ei dŷ;
Ei air, fel ei lŵ, a gyflawnai,
Yn ddidwyll, heb ammau, y bû;
Yn sobr, yn weddaidd, cyfeillgar,
A hynod letengar, a hael,
Yn barod i ddangos tosturi,
A gwneuthur daioni i'r gwael.

20 Gwybyddus ei ddawn, a'i wybodaeth,
I gynnal dysgyblaeth y'mlâ'n,
Heb wneuthur, mewn un rhyw ymryson,
Wahaniaeth rhwng mawrion a mân;
Ei farn oedd ddi-duedd, sylweddol,
Yn gwbl gydunol â'r gwir,
Ni chô'd tangnefyddwr, mewn eglwys,
Na blaenor, mwy cymmwys, yn hîr.

21 Pan aeth i'r nefolaidd ogoniant,
Oed *Crist* oedd, *tri chwech cant a naw*,
A *saith* o flynyddoedd, yn rhagor,
( Aeth trosodd yn iach 'r ochr draw. )
Rhifedi 'i flynyddau yn gyfain.
Oedd bron *pedwar ugain a naw*:
Pwy ŵyr, cyn dêl cymmaint o amser,
Pa lwyddiant, neu flinder, a ddaw!

22 Meddiannodd ei enaid yn dawel,
Pan oedd yn ymadael â'r byd,
Gan ddysgwyl cael *derbyn*, nid *haeddu*
Maddeuant trwy 'r *Jesu*, o hyd;
Yn syml, dirwystr, y rhodiodd,
Defnyddiol, tra pârodd ei oes,
Ond etto gwir sylfaen ei obaith,
Oedd *Jesu*, ac aberth ei groes.

23 Cystuddiol dan bwys yr ymweliad,
Mae tylwyth ymddifad y *Llwyn;*
Yn *Islington* hefyd mae galar,
Ac yn *Aberduar* mae cwyn;
*Maes-issa* ganfyddir mewn gofid,
A *Pheckham ;* dan ergyd mor drwm;
A'i geraint, dan riddfan, nid gronyn,
Yn *Nghylmstock*, *Cwmclu[illegible]*, *Ty'ncwm.*

24 Canfyddaf, fel arwydd marwoldeb,
Eich gwisgoedd, a'ch wyneb yn brûdd,
Eich llygaid chwyddedig yn llifo,
A'r dagrau 'n gorchuddio eich grûdd;
Dilynwch ei siampl heb flina,
Beth bunnag a ddelo i'ch cwrdd;
Byth cofiwch ei ddwysfawr gynghorion,
A daliwch yn ffyddlon eich ffordd.

25 Atgofiwch yn fynych eich breintiau,
I'ch ddisgyn o *achau* mor wiw,
Hiliogaeth *henafiaid* mor enwog,
Ymdrechol, a zelog dros *Dduw;*
Edrychwch na byddo adfeiliad,
Mewn deall, a chariad, a ffydd,
Ond dyfal barhewch, trwy amynedd,
Ar gynnydd, hyd ddiwedd eich dydd,

26 Nodedig ei brydferth ymddygiad,
Mewn eglwys a marchnad yr un:
Ei ddifrif, addysgol bregethau,
A'i holl gyflawniadau 'n gyttun.
Fy *Ewythr*, mor fwyn, a charedig,
Byth cofia 'i 'n barchedig dy wedd,
Peraiddlawn dy fychedd oedd yma,
Gorphenaist dy yrfa mewn hêdd!

27 Canfyddaf di 'nawr yn *Mharadwys*,
Lle 'r êst ti i orphwys o'n plith,
Mor hardd dy gyfeillion, mor berffaith,
A'th uchel orchwiliaeth di byth!
Cê'st weled dy *Frodyr* parchedig,
A'th *geraint* caredig, a mwyn,
Pob un yn rhyfeddu, ar mwya,
Paham câ's ê yna ei ddwyn!

28 Yr Arglwydd gysuro ei weision,
Sydd heddyw a'u calon yn drwm,
Gan gyfrif eu Dŷ wedi 'i adael,
Trwy golli 'u cyd-fugail, yn llwm;
Pen-bugail yr eglwys tosturied
Wrth ddiadell ei ddefaid, o hyd;
Danfoned, o'i raslawn ddaioni,
Fugeiliaid i'w porthi mewn pryd!

29 O angau! ti gê'st oruchafiaeth,
Ond nid buddugoliaeth yn lân,
Canfyddaf y dydd rhag-dd'wedadwy,
A'r *Udgorn* ofnadwy a gân.
Gwêl daiar a'i ch'lofnau yn crynu,
A'r beddau yn hollti ar lêd,
Y meirw, mewn anllygredigaeth,
Yn c'odi yn berffaith i gyd!

30 Ac yna bydd gwir yr ymadrodd
'Sgrifen[illegible] rhai oesoedd o'r blâ'n,
"Y gelyn [illegible] ddinystrwyd,
Yr angau [illegible] yn fân;"
Ni phrofi[illegible] ch mwyach f[illegible]olaeth,
Ond llwy[illegible]dugoliaeth trwy 'r *Oen*;
Nag ofn[illegible] drygfyd, drachefn,
Na thristwch, na llefain, na phoen.